

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a
gynhaliwyd am 7:30 pm ar nos
Fawrth, 4ydd Awst 2020 drwy
fynychu o bell**

**Minutes of a meeting of the Council
held at 7:30 pm on Tuesday, 4th August
2020 by way of remote attendance**

Yn bresennol:

Cadeirydd: y Cynghorydd Phil Tomlins; y
Cynghorwyr Sheila Davies, Lowri Jones,
Gwenno Piette, Aled Roberts, Bryan
Tomlins a Caryl Vaughan.
Cynghorydd Sir Dafydd Edwards
Mr Denfer Morgan (Clerc)

Present:

Chairman: Councillor Phil Tomlins;
Councillors Sheila Davies, Lowri Jones,
Gwenno Piette, Aled Roberts, Bryan
Tomlins and Caryl Vaughan.
County Councillor Dafydd Edwards
Denfer Morgan (Clerk)

516 Ymddiheuriadau

Ymddiheuriodd y Cynghorwyr Jim
Hughes, Lodwick Lloyd a Dennis Morgan
am fethu a bod yn bresennol yn y
cyfarfod.

516 Apologies

Councillors Jim Hughes, Lodwick Lloyd
and Dennis Morgan apologised for their
inability to attend the meeting.

517 Materion Personol

Nododd yr Aelodau farwolaeth diweddar
Mr D H Davies, un a fu'n Brif
Weithredwr Cyngor Sir Dyfed.

517 Personal Matters

Members noted the recent death of Mr D
H Davies, a former Chief Executive of
Dyfed County Council.

**518 Cofnodion o'r Cyfarfod Blynnyddol a
gynhaliwyd ar 7fed Gorffennaf 2020**

Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r
Cyngor a gynhaliwyd ar 7fed Gorffennaf
2020 fel rhai cywir; yn amodol ar
adolygu cyfnod y Cadeirydd a'r Is-
gadeirydd yn eu swyddi ar ddiwedd y
flwyddyn fwrdeistrefol presennol.

**518 Minutes of the Annual Meeting held on
7th July 2020**

The Minutes the Annual Meeting of the
Council held on 7th July 2020 were
confirmed as being a correct record;
subject to reviewing the term of office of
both the Chairman and Vice-Chairman at
the end of this municipal year.

**519 Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a
gynhaliwyd ar 7fed Gorffennaf 2020**

Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r
Cyngor a gynhaliwyd ar 7fed Gorffennaf
2020 fel rhai cywir.

**519 Minutes of the Monthly Meeting held
on 7th July 2020**

The Minutes the Meeting of the Council
held on 7th July 2020 were confirmed as
being a correct record.

520 Materion yn codi o'r Cofnodion

- a) Cofnod 499a) – biniau. Dywedodd y
Cadeirydd ei fod yn trafod cael gafael ar
byst a'r gosodiadau priodol.
- b) Cofnod 499c) – cŵn yn baeddu.
Dywedodd y Cadeirydd fod y pecyn ar
gyfer codi sbwriel nawr yn cael ei gadw
yn y sied.

520 Matters arising from the Minutes

- a) Minute 499a) – bins. The Chairman
stated that he was negotiating the
acquisition of appropriate posts and
fixings.
- b) Minute 499c) – dog fouling. The Chairman
stated that the kit for litter picking for was
now being kept in the shed. He had yet to
try out the stencil.

- | | |
|--|---|
| <p>c) Cofnod 499d) Dywedodd y Clerc fod y Cyngor Sir wedi cytuno darparu postyn ac arwydd ar gyfer llwybr cyhoeddus 33/10 yn Albion Place a dywedodd y Cadeirydd y byddai'n trefnu ei godi.</p> <p>d) Cofnod 499e) Dywedodd y Cynghorydd Aled Roberts ei fod yn dilyn i fyny argaeledd grantiau ar gyfer gosod manau tanio ceir trydanol.</p> <p>e) Cofnod 500 – hysbysfwrdd Stad Craig Ddu. Dywedodd y Cynghorydd Sheila Davies nad oedd yn addas ar gyfer dangos cofnodion gan nad oedd gorchudd gwydr ar un ochr. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n darparu'r Cynghorydd Davies gyda fersiwn wedi'i lamineiddio at y pwrpas hwn.</p> <p>f) Cofnod 502 – trwsio mainc. Nodwyd mai mainc pren oedd yr un oedd angen ei drwsio.</p> <p>g) Cofnod 505 – Creulys ar Faes Chwarae Llanon. Dywedodd y Clerc ei fod wedi cyfeirio'r mater at Ysgrifennydd y Pwyllgor ond y byddai'n ysgrifennu eto gan danlinellu'r perygl i anifeiliaid sy'n pori.</p> <p>h) Cofnod 512 – Cloncan Llanon. Cafodd y Cynghorwyr Sheila Davies a Gwenno Piette ei llongyfarrch gan yr Aelodau am gynhyrchu'r rhifyn diweddaraf a oedd wedi'i ddsbarthu yn ardal Nebo am y tro cyntaf. Roedd trefniadau mewn llaw nawr i gasglu deunydd o'r ardal.</p> | <p>c) Minute 499d) The Clerk stated that the County Council had agreed to provide a post and sign for public footpath 33/10 at Albion Place which the Chairman said he would arrange for its erection.</p> <p>d) Minute 499e) Councillor Aled Roberts advised that he was following up the availability of grants for the installation of electric car charging points.</p> <p>e) Minute 500 – Stad Craig Ddu noticeboard. Councillor Sheila Davies stated that it was not suitable for displaying minutes as one side had no glass covering. The Chairman stated that he would provide Councillor Davies with a laminated version for this purpose.</p> <p>f) Minute 502 – repair of bench. It was noted that the bench to be repaired was a wooden one.</p> <p>g) Minute 505 – Ragwort at Llanon Playing Field. The Clerk advised that he had referred the problem to the Committee Secretary but would write again underlining the danger to grazing animals.</p> <p>h) Minute 512 – Llanon Chat. Members congratulated Councillors Sheila Davies and Gwenno Piette on producing the latest edition which had been circulated in Nebo for the first time. Arrangements were now in hand to collect material from the area.</p> |
|--|---|

521 Archwiliad o Eiddo

Cyfeiriodd y Cynghorwyr Sheila Davies a Gwenno Piette at y materion canlynol:

- mieri ar rai llwybrau
- sbwriel yn y man chwarae
- awdurdod i'r Cadeirydd brynu diheintyddion fel oedd angen
- roedd chwyn wedi tyfu nôl yn y man eistedd.

522 Y Chalet

Dywedodd Mr Dafydd Edwards ei fod yn adolygu'r manyleb a'r costau ar gyfer codi'r chalet newydd. Dywedodd y byddai'n cael y prisiau mwya' diweddar ar gyfer eu rhannu gyda'r Aelodau. Dywedodd y Clerc mai'r gost a

521 Property Inspection

Councillor Sheila Davies and Gwenno Piette referred to the following matters:

- brambles along certain footpaths
- litter at the playground
- authority to the Chairman to buy sanitisers as and when required
- weeds had grown back at the seating area.

522 The Chalet

Mr Dafydd Edwards stated that he was reviewing the specifications and costings for the new chalet. He stated that he would get up-to-date prices for circulating to Members.

The Clerk advised that the cost submitted

gyflwynwyd i'r Cyngor Sir ar gyfer y grant cymunedol oedd £7,000, gyda'r Cyngor wedi ymrwymo i gyllido £4,000. Dywedodd fod swm o £5,000 wedi'i ddarparu yn y Gyllideb ar gyfer addasiadau o'r fath.

Dywedodd y Cynghorydd Sheila Davies fod pobl yn gofyn am fanylion y datblygiad a chytunwyd fod y Clerc yn paratoi poster ar gyfer ei arddangos yn y Gymuned.

523 Materion Ariannol
PENDERFYNWYD talu'r anfonebau canlynol

Robert Griffiths (4 toriad tyfiant llwybrau) £1,478.40
Lolfa Cyf. (Argraffu'r Cylchlythyr) £292

524 Materion Cynllunio

A200588 Whitehall Garage Stryd Fawr, Llanon. Proposed showroom and MOT/workshop building to replace existing workshop.

Dywedodd y Clerc fod y dogfennau wedi'u derbyn y bore hwnnw a'u bod yn cael ei cyflwyno i'r Aelodau yng nghyfarfod heno er mwyn cwrdd gyda'r cyfnod ymgynghori 21 niwrnod.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gohirio ystyried y mater gan fod yr Aelodau'n teimlo nad oeddent wedi cael amser digonol i ddarllen y dogfennau ac i ystyried y mater ymhellach cyn diwedd y cyfnod ymgynghori gan rannu sylwadau naill ai drwy ebost neu drwy galw cyfarfod arbennig.

525 Enwi Datblygiad Cylch Peris
Roedd yr enwau a gynigiwyd ar gyfer enwi tair stryd ar y datblygiad tai newydd wedi'u dosbarthu a gofynwyd i'r Aelodau eu hystyried ac anfon eu dewis nhw i'r Clerc ar gyfer eu casglu ynghyd a dewis y mwyaf poblogaidd.

526 Materion Covid-19
Nodwyd y disgwyliad cyngor o Lywodraeth Cymru ynghylch agor

for grant aid from the County Council was £7,000, with the Council committed to fund £4,000. He stated that a sum of £5,000 had been provided in the Budget to allow for any such adjustments.

Councillor Sheila Davies stated that people were asking for details about the development and it was agreed that the Clerk produce a poster for displaying in the Community.

523 Finance Matters
It was **RESOLVED** to pay the following invoices:

Robert Griffiths (4 footpath growth cuts) £1,478.40
Lolfa Cyf. (Newsletter Printing) £292

524 Planning Matters

A200588 Whitehall Garage Stryd Fawr, Llanon. Proposed showroom and MOT/workshop building to replace existing workshop.

The Clerk advised that the documents had been received that morning and that it was being presented to the Members at this evening's meeting in order to meet the 21 day consultation period.

Following a discussion, it was **RESOLVED** to defer consideration of the matter as Members felt that they had had insufficient time to read the documents and to consider the matter further prior to the end of the consultation period and share comments via e-mail or by convening a special meeting.

525 Naming of Cylch Peris Development
The suggested names obtained for the naming of three streets on the new housing development had been circulated and Members were requested to consider them and send their preferences to the Clerk for collating and choosing the most popular.

526 Covid-19 Matters
It was noted that advice was awaited from the Welsh Government in respect of

canolfannau cymdeithasol fel neuaddau pentref a festrion ar gyfer cynnal cyfarfodydd a gweithgareddau eraill ac y byddai unrhyw benderfyniad ar gynnal cyfarfod mis Medi yn dibynnu ar dderbyn cyngor o'r fath.

527 Cais i Ddarparu Rhandir

Dywedodd y Clerc ei fod wedi gwneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir parthed tir y tu ôl i'r Ysgol Gynradd ond nad oedd wedi derbyn ateb, a hefyd gydag Ysgrifennydd Capel Siloh a oedd wedi dweud fod y tir y tu ôl i'r Capel eisoes yn cael ei osod i ffermwr.

Trafododd yr Aelodau lleoliadau eraill posib a teimlwyd taw'r darn orau o dir a fyddai'n addas oedd hwnnw a oedd yn ffinio gyda'r ystafelloedd newid ar y maes chwarae a **PHENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc gynnwys eitem ar agenda cyfarfod nesa'r Cyngor.

528 Unrhyw fater cymwys arall

- a) Coed yn gorhngian ar waelod Stryd yr Eglwys. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi anfon y gŵyn am goed yn gorhngian dros darn o heol ar waelod Stryd yr Eglwys i'r Cyngor Sir. Dywedodd y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards ei fod ef hefyd wedi cael ei gysylltu ar y mater ac wedi trefnu cwrdd gyda'r achwynydd.
- b) Y man chwarae yn Stad Craig Ddu. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Lowri Jones am statws y tir sydd yng nghanol y datblygiad a oedd yn ymddangos yn creu problemau pan yn gwerthu tai ar yr Ystad, dywedodd y Cadeirydd Sir Dafydd Edwards y dylai gwithredodd y tai ddangos staws y tir ac unrhyw gysylltiad gyda pherchnogion y tai ar yr Ystad.
- c) Dywedodd y Cynghorydd Bryan Tomlins ei fod wedi derbyn cais fod mainc yn cael ei osod ger y man chwarae a chytunwyd gofyn am ganiatad Pwyllgor Neuadd Pentref a Maes Chwarae Llanon am osod mainc yn y fan hwn. Dywedodd y Cadeirydd y byddai modd iddo gael

allowing the opening of community centres such as village halls and vestries for hosting meetings and other activities and any decision on the holding of the September meeting would depend on such advice being made.

527 Request to provide an Allotment

The Clerk stated that he had made enquiries with the County Council in respect of the land to the rear of the Primary School but had not received a response, and also with the Secretary of Shiloh Chapel who had advised that the land to the rear of the chapel was already being let to a farmer.

Members discussed other possible locations and it was felt that the most suitable parcel of land would be that adjoining the changing rooms on the playing field and it was **RESOLVED** to request the Clerk to place an item to this effect on the agenda of the next meeting of the Council.

528 Any Other Competent Business

- a) Overhanging trees at the bottom of Stryd yr Eglwys. The Clerk confirmed that he had forwarded the complaint received about overhanging trees over a length of road at the bottom of Stryd yr Eglwys to the County Council. County Councillor Dafydd Edwards stated that he had also been approached on the matter and had arranged to meet the complainant.
- b) Play area at Stad Craig Ddu. In reply to a query by Councillor Lowri Jones about the status of this land in the middle of the development which appeared to be creating problems when selling houses on the Estate, County Councillor Dafydd Edwards stated that the deeds to the houses should show the status of the land and any connection with the owners of houses on the Estate.
- c) Councillor Bryan Tomlins stated that he had received a request that a bench be located next to the playground and it was agreed to request the Village Hall and Playing Field Committee for permission to place a bench at this location. The Chairman stated that he should be able to

gafael ar fainc yn rhad ac am ddim at y pwrpas hwn.

Dywedodd y Cyngorydd Tomlins hefyd y gallai'r Cyngor gael ei gysylltu gan tenant newydd Gwesty'r Central ynghylch defnydd y man storio a'r man eistedd, fel y bu'r drefn gyda'r tenant blaenorol, ac i gadw hwn mewn cof.

d) Ar gais y Cyngorydd Aled Roberts, cytunwyd i ofyn i'r Cyngor Sir i dorri'r llwybr yr arfordir rhwng Aberarth a Llansantffraed.

e) Dywedodd y Clerc fod y Cyngorydd Dennis Morgan wedi gofyn iddo gael eglurhâd am y defnydd a wneir o'r darn bach o dir ar ochr chwith y fynedfa i faes parcio'r Waun fel gardd perlysiâu gan grŵp o drigolion.

Dywedodd y Cadeirydd fod yna gais hefyd wedi dod i godi gwely uchel er mwyn hwyluso ei ddefnydd gan bobl anabl.

PENDERFYNWYD:

i) rhoi gwybod i'r trigolion perthnasol mai caniatâd dros dro a roddwyd ac y byddai'n cael ei adolygu gan y Cyngor yn yr hydref; a

ii) pheidio a chytuno i'r cais i godi gwely uchel.

f) Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc ddwyn sylw Pwyllgor Neuadd y Pentref a'r Maes Chwarae at gyflwr ffens y maes chwarae gan yr adroddwyd iddo fod plentyn wedi cael ei anafu gan bostyn ddiffygiol yn ddiweddar.

obtain a bench free of charge for this purpose.

Councillor Tomlins also stated that the Council may be approached by the new tenant of the Central Hotel for the use of the storage area and seating area, as had been the case with a previous tenant, and would need to bear this in mind.

d) At the request of Councillor Aled Roberts, it was agreed to request the County Council to trim the coastal footpath between Aberarth and Llansantffraed.

e) The Clerk stated that he had been requested by Councillor Dennis Morgan to clarify the use of the small parcel of land on the left hand side at the entrance to the Waun car park as a herb garden by a group of residents.

The Chairman stated that a request had also been received for permission to build a raised bed in order to facilitate its use by disabled people.

It was **RESOLVED:**

i) to advise the residents concerned that this permission was of a temporary basis and would be reviewed by the Council in the autumn; and

ii) not to agree to the request to build a raised bed.

f) The Chairman requested the Clerk to draw to the attention of the Village Hall and Playing Fields Committee the condition of the playing field fence as it had been reported to him that a child had been injured by a faulty post recently.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:15pm

The meeting concluded at 9:15pm